O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 274 (Cy. 44)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 1, Rhiwabon, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2012

Gwnaed *3 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *13 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 1, Rhiwabon, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith a arweiniodd at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 13 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw:

i. y darn o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A483 wrth Gyffordd 1, Rhiwabon ym Mwrdeistref